

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
Dyddiad yr adroddiad	28 Ebrill 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr Adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Diweddariad ar y Gyllideb – Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Broses Gyllidebol

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar yr amcanestyniadau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r cynlluniau ar gyfer y Broses Gyllidebol ar gyfer 2022/23 a thu hwnt i hynny.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses Gyllidebol ddrafft wedi eu cyflwyno a'u trafod yn y Bwrdd Cyllideb ar 3 Mawrth, i'r Tîm Arwain Strategol ar 11 Mawrth a Chyfarfod Briffio'r Cabinet ar 12 Ebrill. Mae'r drafft cyfredol wedi ei ddiwygio yn sgil y sylwadau a'r awgrymiadau hynny. Nod yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ynghylch y broses gyllidebol gyfredol ar gyfer 2022/23 a'r tybiaethau ariannol tymor canolig allweddol er mwyn helpu i hysbysu rôl drosolwg y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o ran proses gyllidebol y cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod y pwyllgor yn ystyried y broses a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae **Atodiad A** yn nodi'r rhagolygon ariannol cyfredol sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Atodiad yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig – mae hwn bellach yn cynnwys rhagdybiaethau ariannol cychwynnol yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd Cyllideb
- Cofnod Newidiadau / Penderfyniadau – mae hwn yn eu nodi ac yn gyson â'r fersiwn cyfredol o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cyngor fis Ionawr
- Dadansoddiad o Sensitifrwydd o lefelau posib o'r Grant Cynnal Refeniw (y "setliad")
- Dadansoddiad o Sensitifrwydd o effaith gwahanol lefelau o Dreth y Cyngor

4.2 Proses Gyllidebol – Adroddiad yw'r ail atodiad sy'n manylu ar y Broses Gyllidebol arfaethedig sy'n cynnwys y dull gweithredu arfaethedig o ran:

- Pwysau
- Arbedion yn y tymor byr a'r tymor hir
- Cynllun Buddsoddi i Arbed
- Ymgynghori ac Ymgysylltu

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae rhagdybiaethau cychwynnol wedi eu cynnwys yn Atodiad A – fodd bynnag bydd yr effaith ariannol yn newid dros y misoedd nesaf wrth i ni fynd drwy'r broses gyllidebol yn fewnol i liniaru pwysau a nodi arbedion. Yn amlwg yr effaith fwyaf ar y gyllideb yw'r cyllid rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Grant Cynnal Refeniw) yr ydym yn annhebygol o dderbyn unrhyw gyhoeddiad arno nes yr hydref.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad oes unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r cynlluniau yn amlygu'r ymgynghori fydd ei angen wrth i ni fynd drwy'r broses. Mae'r broses ddrafftio ei hun wedi ei hysbysu gan sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd er mwyn nodi cyllideb 2021/22 a drwy ymgynghori â'r Bwrdd Cyllideb, y Tîm Arwain Strategol a'r Cabinet. Bydd ymgynghori pellach yn digwydd gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, cyfarfodydd Briffio'r Cyngor, Cyllideb Ysgolion ac Undebau Llafur drwy Gydbwyllgor Ymgynghori Lleol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Nod y broses ddrafft hon yw:

- Sicrhau fod ymgynghori'n drwyadl a chryf
- Adnabod a nodi pwysau llai o faint y disgwyliad i wasanaethau eu hymgorffori dros y blynyddoedd diwethaf
- Caniatáu amser i ystyried pwysau strategol yn gywir
- Nodi prosiectau arbedion tymor canolig a fydd o gymorth i leihau'r angen am dargedau arbedion mewn canrannau i wasanaethau

10. 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r broses gyllidebol ynnddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd sydd wedi ei gynllunio ac sy'n amserol. Byddai methu cytuno ar broses briodol yn risg i'r gofyniad cyfreithiol i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.